



Annwyl Gwsmer

**Swyddfa Bost Deri  
7 Heol Newydd, Deri, Bargod, CF81 9GJ**

Fel y gwyddoch efallai, caeodd y Swyddfa Bost uchod y llynedd am resymau y tu hwnt i'n rheolaeth am fod y postfeistr wedi ymddiswyddo ac am nad oedd yr adeilad ar gael wedyn at ddefnydd Swyddfa'r Post.

Mae Swyddfa'r Post wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r rhwydwaith o ganghennau i sicrhau ei fod yn dal i ddiwallu anghenion newidiol y cwsmeriaid mewn hinsawdd economaidd heriol. Rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn defnyddio ein cyllid ac adnoddau mewn modd sy'n rhoi'r budd mwyaf a gwasanaethau cynaliadwy i bob cwsmer. Bu'r adolygiad yn archwilio'r rhwydwaith ar lefel leol, yn fanwl iawn, gan ddadansoddi galw cwsmeriaid a hygyrchedd cynnyrch a gwasanaethau Swyddfa'r Post. Yn sgil hyn, nid ydym yn bwriadu cael cangen yn lle hon ar hyn o bryd.

Wrth gwrs byddem yn ystyried unrhyw gamau priodol pe ceid newidiadau o bwys yn yr ardal yn y dyfodol. Fodd bynnag, am fod y gangen bod wedi ar gau cyhyd, byddai angen inni gael ein argyhoeddi y byddai unrhyw gyfle newydd yn gynaliadwy i Swyddfa'r Post Cyf. a'r gweithredydd. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau, byddwch cystal â chysylltu â'r Tîm Ymgynghori Cenedlaethol. Fe welwch y manylion drosodd.

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech rannu'r wybodaeth hon, trwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol, ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol y gwyddoch amdany'n nhw yn y gymuned neu yn eich sefydliad.

Mae'r cyfathrebiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud â Hysbysu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Mae'n ddrwg gennym na fu modd adfer gwasanaeth yn lleol. Ar ddiwedd y llythyr hwn fe welwch fanylion am ganghennau eraill yn yr ardal, a gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio'r rhain. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan [www.postoffice.co.uk/branch-finder](http://www.postoffice.co.uk/branch-finder)

Yr eiddoch yn gywir,

*Santosh Samudrala*

**Santosh Samudrala**

**Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith**

Sut i gysylltu â ni:

comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

postofficeviews.co.uk

**Mannau eraill lle mae gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael:**

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.

Registered Office: 100 Wood Street, London EC2V 7ER.

Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.

Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.

Swyddfa Gofrestredig: 100 Wood Street, Llundain EC2V 7ER.

Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig | Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

**postoffice.co.uk**

- **Swyddfa Bost Bargod, 10 O Dan Heol Caerdydd, Bargod, CF81 8XN**
- **Swyddfa Bost Fochriw, Siop y Pentref a Gwerthwr Papurau Newydd, 1 The Grove, Fochriw, Bargod, CF81 9LG 6HJ**

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

## **Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)**

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - [postofficeviews.co.uk](http://postofficeviews.co.uk)

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynr yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau agor
- Cau dros dro<sup>1</sup>/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

**Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.**

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw weithredu ynghylch y cwyn.

**Postofficeviews.co.uk.**

**[Comments@postoffice.co.uk](mailto:Comments@postoffice.co.uk)**

**FREEPOST Your Comments**

**Ffoniwch: 03452 66 01 15**

**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

<sup>1</sup> Rhoddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen a gaewyd dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon; Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol; Cyngorwyr Ward; Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf; elusennau dethol; Cyngor ar Bopeth Lleol; Age UK; Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Lleol Gogledd Iwerddon. Hefyd, anogir yr

uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol  
mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.